Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Diogelu

Bu rhoi terfyn ar gamdriniaeth pobl hŷn yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Comisiynydd ers iddi ddechrau yn ei swydd yn 2018. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch camdriniaeth pobl hŷn wedi cynyddu drwy gydol pandemig y Covid-19. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, sefydlodd y Comisiynydd 'Grŵp Gweithredu ar Atal Camdriniaeth' (wedi'i oruchwylio gan Grŵp Llywio ar Atal Camdriniaeth'), er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sydd mewn risg, neu'n profi camdriniaeth, yn cael cynnig lefelau uwch o warchodaeth ar yr adeg hon. Drwy gydweithio, datblygodd aelodau'r grwpiau hyn strategaeth chwe lefel ar gyfer roi terfyn ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru[1]. Nodwyd anghenion hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol sydd yn y rheng flaen fel maes allweddol ar gyfer gweithredu, o fewn y strategaeth hon.

Awgryma ymchwil sy'n bodoli fod rhai gweithwyr proffesiynol yn methu â chydnabod camdriniaeth pobl hŷn, efallai eu bod yn tybio bod camdriniaeth yn effeithio ar ferched iau yn unig[2]. O fewn sefyllfaoedd o'r fath, nid yw pobl hŷn yn cael eu cyfeirio at y mathau o wasanaethau a allai helpu i hyrwyddo eu diogelwch. Mae 'Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn'[3] yn nodi y dylai pobl hŷn allu byw yn rhydd oddi wrth 'gamdriniaeth gorfforol a meddyliol' a dylen nhw gael mynediad at 'wasanaethau cymdeithasol a chyfreithiol er mwyn gwella eu hannibyniaeth, eu gwarchodaeth a'u gofal'. Felly, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ynglŷn â'r Fframwaith Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Diogelu. Mae'r sylwadau a wnaed yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn dilyn rhif y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori:

1. **A ydych chi'n cytuno bod y safonau hyfforddi hyn yn gydnaws â'r trefniadau diogelu presennol? (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru)**

Mae'r safonau yn ymddangos fel petaen nhw'n gydnaws â'r egwyddorion sydd wedi cael eu hymwreiddio yn y trefniadau diogelu presennol (hynny yw, gyda'r egwyddorion sydd wedi cael eu hymwreiddio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda'r canllawiau statudol ('Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl') a chyda 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan', yn y meysydd canlynol:

- Ymestyn cyfrifoldeb ar gyfer diogelu (gweld diogelu fel "busnes pawb")
- Datblygu gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd
- Yr angen am ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

- Ffocws ar atal
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd, a rennir
- Ymarfer amlasiantaeth

Mae'n bwysig datblygu safonau hyfforddi i hyrwyddo cymhwysedd y staff yn y meysydd a nodwyd. Drwy sicrhau cymhwysedd ym mhob un o'r meysydd y tynnwyd sylw atyn nhw, awgrymir bod canlyniadau hyfforddi penodol yn cael eu datblygu, gan gadw mewn cof y nodau a'r amcanion canlynol:

Codi Ymwybyddiaeth – nid yw cam-drin pobl hŷn bob amser yn cael ei gydnabod, un ai gan weithwyr proffesiynol na chan eraill yn y gymdeithas. Tra bod ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar yn bwysig dros ben, mae hyn yn annhebygol o gael ei wireddu heb gamau gweithredu penodol er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â cham-drin pobl hŷn. Mae angen i weithwyr proffesiynol llawn ddeall y ffaith bod pobl hŷn yn profi pob un o'r un mathau o gamdriniaeth â'r rhai hynny mewn grwpiau oed iau, ac yn wir gallan nhw fod mewn mwy o risg o gamdriniaeth oherwydd ffactorau fel unigrwydd, ynysigrwydd cymdeithasol ac amhariad gwybyddol[4]. Mae'n hanfodol bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn osgoi gwneud tybiaethau ynglŷn ag achos anaf corfforol a brofwyd gan unigolyn hŷn (er enghraifft, dweud bod anafiadau arnyn nhw oherwydd eu bod wedi syrthio), a'u bod yn datblygu'r sgiliau i ofyn y 'cwestiynau iawn' mewn modd sensitif wrth weithio gyda phobl hŷn a'u teuluoedd. Mae sensitifrwydd yn hanfodol wrth weithio gyda phobl hŷn sy'n profi camdriniaeth. Dengys ymchwil fod llawer o bobl hŷn yn gyndyn o ddatgelu eu profiadau o gamdriniaeth, yn arbennig felly os ydyn nhw er enghraifft yn ddibynnol ar dramgwyddwr am eu gofal[5].

Gwybodaeth – mae fersiwn ddrafft o'r safonau yn nodi'r angen yn briodol i ymarferwyr ddatblygu gwybodaeth mewn perthynas â'r fframwaith cyfreithiol ynghylch diogelu a bod yn hollol ymwybodol o'u dyletswyddau o ran adrodd am bryderon diogelu. Mae'n bwysig fod y safonau yn ceisio ymdrin â'r rhwystrau i ddatgelu. Mae pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth yn fater sefydledig mewn gwaith diogelu[6]. Mae'n rhaid i ymarferwyr dderbyn yr hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau nad yw pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth a diogelu data yn eu hatal nhw rhag adrodd am broblem ddiogelu.

Cymhwysedd / sgiliau'r gweithlu – Mae'n hyfryd gweld bod y safonau yn adlewyrchu cymhlethdod y gwaith diogelu. Mae angen i ymarferwyr yn 'Grŵp 'C' ddatblygu'r sgiliau ar gyfer gwneud penderfyniadau gofalus a chytbwys, gan ystyried hawliau'r unigolion a'r teuluoedd, yn ogystal â chloriannu risgiau achosion arbennig. Mae'n hanfodol fod ymyriadau mewn ymateb i bryderon diogelu yn cael eu datblygu drwy sgwrsio â phobl hŷn, ac os yw'n briodol, gydag aelodau eu teulu. Mae'n rhaid cydnabod nad yw pobl hŷn yn boblogaeth gydryw ac mae ganddyn nhw anghenion ac amgylchiadau sy'n gwahaniaethu yn fawr. Yn eu tro, mae'n anochel y bydd yr anghenion a'r amgylchiadau hyn yn llunio eu profiadau o gam-drin. Dim ond drwy'r sgyrsiau hyn 'sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' y bydd ymarferwyr yn datblygu'r

mathau o fewnwelediadau sy'n ffafriol i weithredu a chefnogi priodol. Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn ymgysylltu yn llawn mewn sgyrsiau ynghylch eu hanghenion gofal a chymorth, mae'n rhaid i ymarferwyr ddatblygu dealltwriaeth lawn am y gwasanaethau eirioli sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol.

Gweithio amlasiantaeth. Mae'r safonau yn gydnaws â'r trefniadau diogelu presennol, i bwysleisio pwysigrwydd gwaith amlasiantaeth. Er mwyn datblygu canlyniadau, dylid rhoi ystyriaeth i weithio amlasiantaeth lle y bo'n briodol. Byddai hyfforddiant o'r fath yn helpu i sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth gydfuddiannol o swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol eraill. Awgrymir lle y bo'n briodol, bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu hefyd i ymarferwyr o fewn ardaloedd daearyddol penodol neu 'lecyn'. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ymarferwyr dynnu sylw at faterion penodol o bryder yn eu lleoliadau daearyddol ynghyd â datblygu strategaethau ac atebion lleol. Yn ogystal, bydd yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu'r mathau o berthnasoedd cynhyrchiol a chydweithredol sy'n arwain at weithio yn effeithiol drwy amlasiantaeth.

Drwy gynnal safonau ymarfer, mae'n hanfodol bwysig bod y canlyniadau dysgu sy'n cael eu datblygu yn rhai penodol a mesuradwy. Mae'n rhaid iddyn nhw ganiatáu gwerthuso'r wybodaeth, y sgiliau a'r lefelau cymhwysedd a gyrhaeddwyd gan ymarferwyr ar draws pob un o'r gweithgorau.

Cwestiynau 2-9. Mae'r rhain yn ymwneud ag Adnabod y Grwpiau Staff Penodol.

Mae'n hyfryd gweld bod y safonau yn cynnwys yr holl bobl mewn gwasanaethau cyhoeddus sy'n wynebu'r cyhoedd. Mae gan y rhai hynny yn Grŵp B yn aml y cyswllt mwyaf gyda phobl hŷn sydd mewn risg o gamdriniaeth neu sy'n profi camdriniaeth (e.e. gweithwyr gofal cartref, staff canolfannau dydd). Mae'n hanfodol bwysig bod yr ymarferwyr hyn yn gallu adnabod yr arwyddion o gamdriniaeth posibl a deall eu dyletswydd i adrodd ynglŷn ag unrhyw bryderon diogelu.

Mae'n cael ei gydnabod bod y safonau yn argymell hyfforddiant sy'n datblygu yn gynyddrannol (hynny yw, mae'n cynyddu mewn dyfnder a chymhlethdod yn dibynnu ar swyddogaethau'r ymarferwyr).

10. Pa gyfleoedd mae sefydliadau angen meddwl amdanyn nhw wrth ymwreiddio'r safonau?

Mae'r safonau yn darparu sefydliadau gyda chyfle pwysig i adolygu a gwerthuso eu hyfforddiant diogelu eu hunain, er mwyn nodi bylchau yn yr hyfforddiant hwn a gwella ei gynnwys.

11. Pa heriau mae sefydliadau angen meddwl amdanyn nhw wrth ymwreiddio'r safonau?

Mae **problemau gyda'r gweithlu a chapasiti** yn debygol o fod yn her yn nhermau cyflwyno'r hyfforddiant.

Problemau sefydliadol / strwythurol: Mae gwaith diogelu effeithiol yn ddibynnol ar y ffaith fod gan staff y capasiti i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda phobl hŷn a'u teuluoedd. Gall y perthnasoedd hyn ambell waith gael eu peryglu oherwydd pwysau yn y gweithlu a phroblemau gyda recriwtio a chadw ymarferwyr.

Mae'n gadarnhaol fod y safonau yn cydnabod yr heriau emosiynol o waith diogelu o bersbectif ymarferwr. Fodd bynnag, os yw llesiant emosiynol ymarferwyr am gael ei gynnal, mae'n rhaid i sefydliadau sicrhau bod ymarferwyr yn cael yr amser a'r lle i drafod yn fyfyriol. Mae'n rhaid i brosesau goruchwylio hefyd ganiatáu sgyrsiau myfyriol. Wrth oruchwylio, mae'n rhaid i ymarferwyr gael yr amser a'r lle i drafod y 'llafur emosiynol' o ymarfer diogelu, ynghyd â derbyn y gefnogaeth briodol i gynnal eu llesiant emosiynol.

Sicrhau gwasanaethau eirioli digonol fel bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan lawn mewn trafodaethau sy'n gysylltiedig â'u gofal a'u cefnogaeth.

12. A oes yna unrhyw beth arall y dylem ni ei gynnwys yn y safonau? Os felly, beth ddylen nhw fod?

Dylid nodi gwahaniaethu ar sail oed fel 'ffactor gyd-destunol' yng nghamdriniaeth pobl hŷn.

Dengys ymchwil fod agweddau a thybiaethau rhagfarn ar sail oed yn aml 'wrth wraidd' y gamdriniaeth a brofwyd gan bobl hŷn[7]. Dywedir bod agweddau rhagfarn ar sail oed yn "anfanteisio ac yn dibrisio pobl hŷn drwy ddarparu sail gudd ar gyfer goddefgarwch cymdeithasol o gam-drin pobl hŷn"[8]. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi datblygu adnoddau ar gyfer tynnu sylw ac ymdrin â phroblemau rhagfarn ar sail oed[9].

Mae'n rhaid i'r safonau sicrhau bod ymarferwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i integreiddio ymarfer diogelu, gyda VAWDASV

Dengys ymchwil fod pobl hŷn yn parhau i fod o dan anfantais yn y *ffyrdd* y maen nhw'n derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth, hyd yn oed pan mae gweithwyr proffesiynol yn adnabod arwyddion camdriniaeth bosibl. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae tuedd i ymarferwyr ganfod camdriniaeth pobl hŷn fel mater o drefn fel 'camdriniaeth unigolion hŷn', a ellir fod yn broblemus am sawl rheswm. Wrth siarad am gamdriniaeth unigolion hŷn, mae gweithwyr proffesiynol fel arfer yn disgrifio'r un mathau o ymddygiad camdriniol a gipiwyd o fewn diffiniadau o VAWDASV. Fodd bynnag, wrth ddisgrifio'r gamdriniaeth a brofwyd gan oedolion hŷn fel camdriniaeth unigolion hŷn, ceir

ymatebion gwahanol iawn[10] ar ran y gweithwyr proffesiynol. Yn gyffredinol, gwelir camdriniaeth unigolyn hŷn yn codi oherwydd straen darparu gofal hirdymor, gyda'r canlyniad bod ymyriadau gan ymarferwyr wedyn yn canolbwyntio ar ysgafnhau'r lefelau hyn o straen (er enghraifft, drwy ddarparu gofal dydd neu wasanaethau seibiant)[11]. Awgrymir bod ymatebion gweithwyr proffesiynol tuag at sefyllfaoedd camdriniaeth unigolion hŷn yn aml yn llawer 'meddalach' na'u hymateb i ddatgeliadau o gamdriniaeth wrth edrych ar y materion drwy lens VAWDASV. O ganlyniad, mae rhai merched hŷn wedi cael cynnig mathau 'anaddas' o gefnogaeth sy'n methu â herio eu sefyllfaoedd camdriniol yn effeithiol, ac yn lle hynny, maen nhw'n cael eu cynorthwyo i 'ymdopi' a'u profiadau camdriniol eu hunain (e.e. cwnsela neu ragnodi meddyginiaeth wrthiselder)[12]. Drwy fod yn feirniadol, gall canfod camdriniaeth pobl hŷn fel camdriniaeth unigolion hŷn arwain ymarferwyr i anwybyddu "troseddoldeb gweithredoedd a fyddai'n cael eu trin fel rhai troseddol pe bai'r dioddefwyr yn ieuengach"[13].

Wrth ymdrin â'r broblem hon, rydym yn argymell yn gryf iawn y cyfunir hyfforddiant ynglŷn â diogelu pobl hŷn â hyfforddiant ynglŷn â VAWDASV. Mae'n cael ei argymell, er enghraifft, bod ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu" fel elfen o'u hyfforddiant diogelu. Yn ogystal, cynigir y dylai'r hyfforddiant hwn ymdrin â deddfwriaeth VAWDASV briodol a chanllawiau statudol perthnasol. Drwy roi enghraifft, mae'r canllawiau presennol sy'n cael eu datblygu ynghylch 'Ymddygiad sy'n Rheoli a Gorfodi' yn sylfaenol i ymarferwyr gydnabod troseddoldeb posibl rhai o'r camau gweithredu difrïol a gyflawnwyd yn erbyn pobl hŷn.

Mae'n rhaid i bobl hŷn sydd mewn risg o gamdriniaeth neu sy'n profi camdriniaeth gael mynediad at yr amrediad llawn o wasanaethau VAWDASV yn yr ardal leol. Felly, mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn ddatblygu dealltwriaeth lawn ynglŷn â sefydliadau VAWDASV arbenigol yn eu hardaloedd lleol, er mwyn sicrhau ymgysylltiad priodol.

Mae'n rhaid cydnabod na all unigolyn hŷn o reidrwydd feddu ar anghenion gofal a chymorth ac felly ni all gael ei ddisgrifio fel "oedolyn mewn risg" fel y'i diffinnir yn neddfwriaeth 2014. Fodd bynnag, nid yw hyn yn nacáu cyfrifoldebau'r ymarferwyr i gyfeirio'r bobl hŷn hyn at asiantaethau priodol eraill ar gyfer derbyn cymorth a chefnogaeth.

Hunanesgeuluso – Mae aelodau'r gweithgor 'Atal Camdriniaeth' y Comisiynydd wedi tynnu sylw sawl gwaith at y broblem o hunanesgeuluso mewn pobl hŷn. Gall gweithio gyda'r rhai hynny sy'n hunanesgeuluso fod yn heriol dros ben ac yn faes ymarfer cymhleth[14]. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn cael eu darparu â'r sgiliau a'r wybodaeth, drwy hyfforddiant priodol, i'w galluogi nhw i ymgysylltu yn effeithiol gyda'r maes gwaith hwn.

Ymestyn y ffocws ar gamdriniaeth ariannol i ymdrin yn ogystal â **chamdriniaeth economaidd**. Mae'r elusen 'Goroesi Camdriniaeth Economaidd' yn deall camdriniaeth ariannol fel un sy'n ymwneud â chyfyngu arian a chyllid. Pan mae

unigolyn yn dioddef ‘camdriniaeth economaidd’ mae hefyd yn cael ei wrthod rhag derbyn y pethau y gall arian ei brynu (fel bwyd, dillad a chludiant er enghraifft). Bydd y diffiniad ehangach hwn yn helpu ymarferwyr i ddeall *effeithiau* ymddygiad camdriniol ariannol.

Tra cydnabyddir y bydd elfennau ‘cyffredin’ ynghlwm â hyfforddiant diogelu, mae’n wir hefyd y bydd meysydd ar gyfer ystyriaeth benodol, yn dibynnu ar ffocws gwaith yr ymarferwyr[15]. Mae’n hanfodol fod hyfforddiant diogelu ynghylch pobl hŷn yn ymdrin, er enghraifft, â phroblemau galluedd meddyliol a’r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (DARh) newydd. Byddai ymarferwyr sy’n gweithio yn y maes hwn hefyd yn cael budd o hyfforddiant sy’n eu helpu nhw i ddatblygu sgiliau penodol mewn cyfathrebu gyda phobl hŷn â dementia.

14. Pa effeithiau fydd ein cynigion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r iaith Gymraeg

ii) peidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na’r iaith Saesneg.

Sut allwn ni gynyddu’r effeithiau cadarnhaol neu leihau’r rhai negyddol?

Mae’n hanfodol bwysig fod pobl hŷn yn cael eu galluogi i siarad yn yr iaith a ddewisir ganddyn nhw, wrth drafod materion sy’n gysylltiedig â chamdriniaeth. Ar adegau o’r fath (ac o gofio natur emosiynol y materion hyn), gellir dadlau ei bod yn haws i bobl hŷn gyfathrebu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, os Cymraeg yw eu ‘hiaith gyntaf’.

15. A yw’r safonau yn cael effaith ar y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig?

Mae’n rhaid i unrhyw hyfforddiant diogelu ymdrin â materion croestoriadedd. Mae’n rhaid i ymarferwyr gael eu galluogi i adnabod y ffyrdd ynglŷn â pha faterion, er enghraifft, hil, ethnigrwydd, rhywioldeb sydd o bosibl yn llunio profiadau camdriniaeth ac yn cynyddu heriau pobl hŷn yn nhermau datgeliad.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae hi'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achos ac mae hi'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed ac y gweithredir yn eu cylch. Mae swyddogaeth y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi hi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi terfyn ar wahaniaethu a rhagfarn ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn dymuno gweld Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau yn cael eu cadarnhau a lle nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru

[1] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Strategaeth i Roi Terfyn ar Gam-drin Pobl Hŷn Strategaeth_i_Roi_Terfyn_ar_Gam-drin_Pobl Hŷn_website.sflb.ashx (comisiynyddphcymru.com)
[2] McGarry, J., Simpson, C. a Hinchliff-Smith, K. 2011. The Impact of Domestic Abuse for Older Women: A Review of the Literature. Health and Social Care in the Community 19(1), tt. 3-14.
[3] Egwyddorion y CU ar gyfer Pobl Hŷn (Egwyddorion y CU (comisiynyddphcymru.com)
[4] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru.* Ar gael yn: Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_Hŷn_sy'n_Profi_Camdriniaeth_yng_Ngymru.pdf (comisiynyddph.cymru)
[5] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru.* Ar gael yn: Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_Hŷn_sy'n_Profi_Camdriniaeth_yng_Nghymru.pdf (comisiynyddph.cymru)
[6] Pinkey, L., Penhale, B., Manthrope, J., Perkins, N, Reid, D., Hussein, S. 2008. Voices from the frontline: social work practitioners' perceptions of multi-agency working in adult protection in England and Wales. Journal of Adult Protection 10(4), tt. 12 – 24.
[7] McDonald, L. Ageism and Elder Mistreatment: Talking the Talk but not Walking the Walk. Yn Nelson, T.D. 2017. Ageism: Stereotyping and Prejudice Against Older Persons (Second Edition). The MIT Press
[8] Phelan, A. 2008. Elder abuse, ageism, human rights and citizenship: implications for nursing discourse. 15(4), tt. 320-329.
[9] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. 2019. Gweithredu yn erbyn Oedraniaeth: Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Pobl Hŷn. Ar gael yn: Gweithredu yn erbyn Oedraniaeth – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[10] Bows, H. yn Lombard, N. (2018). The Routledge Handbook of Gender and Violence. Routledge: Llundain.
[11] Hightower, J., Smith, M.J. a Hightower, H.C. (2006). Hearing the Voices of Abused Older Women. The Journal of Gerontological Social Work 46 (3-4) tt. 205-227
[12] Bows, H. yn Lombard, N. (2018). The Routledge Handbook of Gender and Violence. Routledge: Llundain.
[13] Hightower, J., Smith, M.J. a Hightower, H.C. (2006). Hearing the Voices of Abused Older Women. The Journal of Gerontological Social Work 46 (3-4) tt. 205-227.
[14] McDermott, S. 2010. Professional judgements of risk and capacity in situations of self-neglect among older people. Ageing and Society (30), tt. 1055-1072.
[15] Cooley, D.R. 2015. Elder abuse and vulnerability: avoiding illicit paternalism in healthcare, medical research, and life. Ethics, Medicine and Public Health (1), tt. 102-112. t. 102-112.